YSTYRIED RHYW A PHRIODAS O SAFBWYNT DUW

Nodyn i'r siaradwr:
Trafoda'r pwnc hwn mewn ffordd agored ond gydag urddas. Helpa'r gynulleidfa i weld y doethineb o feithrin hunanreolaeth a dilyn cyfarwyddyd cariadus a chytbwys Jehofa

RHYW A PHRIODAS—ANRHEGION CARIADUS ODDI WRTH EIN CREAWDWR (5 mun.)

Mae'r byd heddiw yn rhoi pwyslais mawr ar ryw; mae llawer yn teimlo'n rhydd i wneud beth bynnag maen nhw'n dymuno

Mae'n rhesymol i edrych ar yr Un a sefydlodd ryw a phriodas i weld ei safbwynt ef

Gosododd Duw'r cwpl cyntaf mewn priodas anrhydeddus (Ge 2:21-24)

Dymuniad Duw oedd i ŵr a gwraig cael perthynas rywiol â'i gilydd, un naturiol a glân (Ge 1:27, 28)

Nid oedd rhyw yn hollbwysig; roedd cyplau priod i fod i fwynhau cwmni a chymorth ei gilydd, a byddai rhinweddau'r naill a'r llall yn cyfrannu at gryfder y berthynas (Ge 2:18)

Mae priodas sydd wedi ei seilio ar safonau Duw yn dod â llawer o fendithion

Mae cyplau priod yn cael llawer o bleser drwy fod yn hael gyda'i gilydd (Act 20:35)

Mae priodas yn creu aelwyd sefydlog a llesol—yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, ac yn foesol—ar gyfer magu plant

Mae pobl briod a phobl sengl ar eu hennill o reoli eu chwantau rhywiol **[Darllen Colosiaid 3:5, 6]**

Dylai chwantau rhywiol dim ond cael eu bodloni o fewn trefniant Jehofa ar gyfer priodas

MAE CYNGOR DUWIOL YN HELPU PRIODAS I LWYDDO (12 mun.)

Mae deddfau a chyngor y Beibl ar ryw a phriodas yn adlewyrchu cariad Duw

Felly, dylai perthynas rywiol rhwng gŵr a gwraig adlewyrchu cariad anhunanol **[Darllen 1 Corinthiaid 7:3-5]**

Pan fydd gŵr a gwraig yn dangos gofal go iawn tuag at ei gilydd, mae'r berthynas rywiol yn gallu dod â boddhad i'r ddau (1Pe 3:7; *w12*-E 5/15 5 ¶10; *w89*-E 6/1 14 ¶18)

Mae Jehofa yn cyfyngu'r berthynas rywiol i'ch cymar priodasol eich hun yn unig **[Darllen Hebreaid 13:4]**

Mae godinebu yn dangos amarch difrifol tuag at Dduw (Ge 39:9)

Mae godineb yn niweidio'r rhai sy'n euog ohono a phawb arall sy'n cael eu heffeithio ganddo (Dia 6:27-29, 32)

Peth doeth fyddai i gyplau priod osgoi unrhyw beth a all arwain at odineb (Mth 5:27-29; *w15*-E 1/15 24 ¶4-7)

Pwrpas Jehofa oedd i rwymyn priodas barhau (Mth 19:4-6)

Mae Jehofa yn casáu ysgariad (Mal 2:14-16; *jd*-E 126-127 ¶5-7)

Mae rhai sydd mewn amgylchiadau *hynod* o anodd wedi penderfynu gwahanu, ond nid oes ganddyn nhw'r hawl i ailbriodi (1Co 7:11; *lv* 219-221)

Os ydy rhywun yn euog o anfoesoldeb rhywiol, mae gan y cymar dieuog yr hawl i gael ysgariad Ysgrythurol **[Darllen Mathew 19:9]**

Mae penderfyniad o'r fath yn un personol ac mae angen meddwl amdano yn ofalus (*g*-E 2/10 4-8)

Drwy werthfawrogi difrifoldeb priodas ac ysgariad, mae cyplau yn cael eu helpu i gael priodas lwyddiannus

SAFBWYNT DUW AR RYW YN FUDDIOL I BOBL SENGL (10 mun.)

Mae cyfraith Duw yn gwahardd bob math o anfoesoldeb rhywiol **[Darllen 1 Thesaloniaid 4:3-5]** (*w08*-E 12/15 9 ¶10)

Mae'r ddeddf gariadus hon yn ein hamddiffyn rhag niwed corfforol ac emosiynol (*w15*-E 5/15 17-18 ¶13-16; *w07*-E 4/1 5-6)

Drwy aros yn bur ac yn lân, mae pobl sengl yn cadw cydwybod lân

I lawer ym myd Satan mae'n dderbyniol i fod yn hoyw, ond mae Duw yn ei gondemnio (1Co 6:9, 10)

Gall pobl ifanc wrthsefyll chwantau anghywir ac "osgoi anfoesoldeb rhywiol" (1Co 6:18; *yp2*-E 231-236)

Gall y rhai sydd wedi bod yn anfoesol yn rhywiol blesio Duw drwy newid eu ffordd o feddwl a stopio'r ymddygiad anghywir, fel y gwnaeth rhai a ddaeth yn Gristnogion yn y gorffennol (1Co 6:11)

Mae'r arfer o fastyrbio yn un aflan sy'n cryfhau agweddau hunanol

Gyda help Jehofa, gall rhywun roi diwedd ar yr arfer (*yp1*-E 178-182)

I ennill y frwydr, mae'n rhaid i berson osgoi pornograffi ac unrhyw beth arall sy'n bwydo chwantau anghywir (Sal 101:3)

Dylai rhieni drafod y pethau hyn gyda'u plant gan esbonio beth mae Duw yn meddwl ar y pwnc

Peidiwch ag aros nes bydd eich plant yn clywed syniadau anfoesol oddi wrth eu ffrindiau ysgol neu gan eraill

MAE CAEL SAFBWYNT DUW YN DOD Â HEDDWCH A HAPUSRWYDD (3 mun.)

Ni fyddai Jehofa yn gofyn inni fyw mewn ffordd a fyddai'n amhosib inni neu a fyddai'n amharu ar ein hapusrwydd

Drwy dderbyn cyfarwyddyd Duw a'i ddilyn, cawn ein helpu i osgoi problemau a thristwch **[Darllen Salm 19:9-11]**

Gall cyplau priod fwynhau priodas sy'n bur ac yn llawn cariad

Gall pob Gristion—yn briod neu beido—gael cydwybod lân, heddwch meddwl, a'r gobaith o fyw am byth

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School,* tudalennau 52-55, 166-169]

© 2017 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania